Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau

# Cofrestru cerbyd symudedd

## Oes angen imi gofrestru fy ngherbyd symudedd neu gadair olwyn â phŵer?

Os yw eich cerbyd wedi'i gofrestru'n flaenorol gyda DVLA, bydd angen ichi adael inni wybod am y newidiadau trwy ddefnyddio'ch tystysgrif gofrestru V5CW (llyfr log). Os nad oes gennych V5CW gwnewch gais am un trwy ddefnyddio ffurflen V62W: **www.gov.uk/government/publications/application-for-a-vehicle-registration-certificate.cy**

Ceir rheolau gwahanol ar gyfer defnyddio eich sgwter symudedd neu gadair olwyn â phŵer, yn dibynnu ym mha 'ddosbarth' y mae ynddo, neu os yw 'ddim mewn dosbarth'. Am wybodaeth bellach, ewch i: **www.gov.uk/mobility-scooters-and-powered-wheelchairs-rules**

| Math o gerbyd | Manyleb y cerbyd | Oes angen imi drethu a chofrestru'r cerbyd? |
|---|---|---|
| Cadeiriau olwyn â llawi | A yrrir â llaw | Na, nid oes angen ichi drethu a chofrestru'r cerbyd. |
| Dosbarth 2 | Cyflymder uchaf o 4mya, uchafswm pwysau heb ei lwytho o 113.4kg | Na, nid oes angen ichi drethu a chofrestru'r cerbyd. |
| Dosbarth 3 | Cyflymder uchaf o 8mya, uchafswm pwysau heb ei lwytho o 150kg (neu 200kg os oes angen unrhyw offer arnoch i fod ynghlwm wrtho – er enghraifft, offer meddygol) | Oes, mae angen ichi drethu a chofrestru'r cerbyd. Rhaid ichi lenwi ffurflen V55/MVW y gallwch ei lawrlwytho yn **www.gov.uk/government/publications/apply-for-first-vehicle-tax-and-registration-of-a-mobility-vehicle-55mv.cy** |
| Ddim mewn dosbarth | Gall fynd dros 8mya, mae'n fwy na 0.85 metr mae'n pwyso mwy na 150kg (neu 200kg os oes angen unrhyw offer arnoch i fod ynghlwm wrtho – er enghraifft, offer meddygol) | Oes, mae angen ichi drethu a chofrestru'r cerbyd. Ar gyfer cerbyd newydd rhaid ichi lenwi ffurflen V55/4W y gallwch ei lawrlwytho yn **www.gov.uk/government/publications/apply-for-first-vehicle-tax-and-registration-of-a-new-motor-vehicle-v554.cy** Ar gyfer cerbyd ail law rhaid ichi lenwi ffurflen V55/4W y gallwch ei lawrlwytho yn **www.gov.uk/government/publications/register-a-used-vehicle-for-the-first-time-v555.cy** |

## Os yw'ch cerbyd 'Ddim mewn dosbarth'

### Bydd angen ichi:

- ei drethu a'i gofrestru naill ai fel beic cwad, beic tair olwyn, neu gar modur – am ragor o wybodaeth ewch i: **www.gov.uk/vehicle-registration**
- gael trwydded yrru – am ragor o wybodaeth ewch i: **www.gov.uk/driving-licence-categories**

Rhaid i gerbydau symudedd fod ag un sedd yn unig. Ni ellir cofrestru cerbydau sydd â chyfluniadau seddi eraill fel cerbyd symudedd, bydd angen cofrestru cerbydau o'r fath gan ddefnyddio ffurflen gais V55/4W neu V55/5W. Am ragor o wybodaeth ac i lawrlwytho'r ffurflenni hyn, ewch i **www.gov.uk/vehicle-registration/new-registrations**

## Trethu a chofrestru sgwter symudedd neu gadair olwyn â phŵer Dosbarth 3

### Bydd arnoch angen:

- ffurflen gais V55/MVW wedi'i llenwi – gallwch lawrlwytho'r ffurflen yn **www.gov.uk/government/publications/apply-for-first-vehicle-tax-and-registration-of-a-mobility-vehicle-v55mv.cy**
- **tystiolaeth sy'n dangos bod y cerbyd yn newydd** – rhaid i hon fod yn dystysgrif neu'n ddatganiad ysgrifenedig gan y gwneuthurwr sy'n cadarnhau newydd-deb sy'n cynnwys rhif hunaniaeth neu ffrâm y cerbyd
- **tystiolaeth sy'n dangos y dyddiad gwneuthuriad ar gyfer cerbyd ail-law** – os na allwch ddarparu tystiolaeth o oedrany cerbyd, bydd rhif cofrestru Q yn cael ei ddyrannu
- **tystiolaeth o gyflymder a phwysau heb ei lwytho, megis:**
  - llythyr neu e-bost printiedig gan wneuthurwr neu gyflenwr
  - llungopi o ddarn o'r llawlyfr cerbyd
  - darn wedi'i argraffu gan wefan gwneuthurwr neu gyflenwr y cerbyd

Gwnewch yn siŵr bod yr holl ddogfennau amgaeedig yn llungopïau ac nid rhai gwreiddiol gan na fyddant yn cael eu dychwelyd atoch.

### Ni fydd angen y canlynol arnoch:

- i dalu ffi gofrestru
- yswiriant, er ei fod yn cael ei argymell – mae cynlluniau addas ar gael i gwmpasu diogelwch personol eich hun ac eraill yn ogystal â gwerth y cerbyd
- arddangos platiau rhif
- tystysgrif eithriad anabl i drethu'r cerbyd
- trwydded yrru
- i drethu eich cerbyd symudedd neu gadair olwyn â phŵer gan y bydd yn cael ei adnewyddu'n awtomatig bob blwyddyn

## Beth sy'n digwydd nesaf

Byddwch yn derbyn tystysgrif gofrestru V5CW (llyfr log) wrth DVLA o fewn 4 wythnos.

Os ydych chi'n newid cyfeiriad dywedwch wrth DVLA ar-lein ar **www.gov.uk/newid-cyfeiriad-v5cw**

Os ydych chi'n gwerthu neu'n trosglwyddo'r cerbyd i rywun arall, gallwch hefyd ddweud wrth DVLA ar-lein ar **www.gov.uk/gwerthu-prynu-cerbyd**

I gael rhagor o wybodaeth am gerbydau symudedd, ewch i **www.gov.uk/mobility-scooters-and-powered-wheelchairs-rules/vehicle-tax-registration-and-insurance**

Driver & Vehicle Licensing Agency

# Registering a mobility vehicle

## Do I need to register my mobility scooter or powered wheelchair?

If your vehicle has been previously registered with DVLA, you'll need to let us know about the changes by using your V5C registration certificate (log book). If you do not have a V5C, apply for one using a V62 form: **www.gov.uk/government/publications/application-for-a-vehicle-registration-certificate**

There are different rules for using your mobility scooter or powered wheelchair, depending on what 'class' it's in, or if it's 'not in a class'. For further information, go to: **www.gov.uk/mobility-scooters-and-powered-wheelchairs-rules**

| Type of vehicle | Specification of the vehicle | Do I need to tax and register the vehicle? |
|---|---|---|
| Manual wheelchairs | Manually propelled | No, you do not need to tax and register the vehicle. |
| Class 2 | Maximum speed of 4mph, maximum unladen weight of 113.4kg | No, you do not need to tax and register the vehicle. |
| Class 3 | Maximum speed of 8mph, maximum unladen weight of 150kg (or 200kg if you need any equipment attached to it – for example, medical equipment) | Yes, you need to register and tax the vehicle.<br>You must fill in a V55/MV form which you can download at **www.gov.uk/government/publications/apply-for-first-vehicle-tax-and-registration-of-a-mobility-vehicle-v55mv** |
| Not in a class | Can go more than 8mph, is wider than 0.85 metres weighs more than 150kg (or 200kg if you need any equipment attached to it – for example, medical equipment) | Yes, you need to tax and register the vehicle.<br>For a **new vehicle** you must fill in a V55/4 form which you can download at **www.gov.uk/government/publications/apply-for-first-vehicle-tax-and-registration-of-a-new-motor-vehicle-v554**<br>For a **used vehicle** you must fill in a V55/5 form which you can download at **www.gov.uk/government/publications/register-a-used-vehicle-for-the-first-time-v555** |

## If your vehicle is 'Not in a class'

### You will need:

- to tax and register it as either a quadricycle, tricycle, or motor car, for more information, go to: **www.gov.uk/vehicle-registration**
- a driving licence, for more information, go to: **www.gov.uk/driving-licence-categories**

Mobility vehicles must have only one seat. Vehicles with other seating configurations cannot be registered as a mobility vehicle, such vehicles will need to be registered using either a V55/4 or V55/5 application form. For more information, and to download these forms go to **www.gov.uk/vehicle-registration/new-registrations**

## Tax and register a Class 3 mobility scooter or powered wheelchair

### You will need:

- a filled in V55/MV application form – you can download the form at **www.gov.uk/government/publications/apply-for-first-vehicle-tax-and-registration-of-a-mobility-vehicle-v55mv**
- **evidence showing that the vehicle is new** – this must be a certificate or written declaration from the manufacturer confirming newness that includes the frame or identity number of the vehicle
- **evidence showing date of manufacture for a used vehicle** – if you cannot provide evidence of the vehicle's age, a Q registration number will be allocated
- **evidence of speed and unladen weight, such as:**
  - a manufacturer or supplier letter or printed email
  - a photocopy of an extract of the vehicle manual
  - a printed extract from the vehicle manufacturer or supplier website

Please ensure all documents are photocopies and not originals as they will not be returned to you.

### You will not need:

- to pay a registration fee
- insurance, although it's recommended – suitable schemes are available to cover your own and others personal safety as well as the value of the vehicle
- to display number plates
- a disabled exemption certificate to tax the vehicle
- a driving licence
- to tax your mobility vehicle or powered wheelchair as it will be renewed automatically every year

## What happens next

You'll receive a V5C registration certificate (log book) from DVLA within 4 weeks.

If you change address, tell DVLA online at **www.gov.uk/change-address-v5c**

If you sell or transfer the vehicle to someone else, you can also tell DVLA online at **www.gov.uk/sold-bought-vehicle**

For more information on mobility scooters and powered wheelchairs, go to **www.gov.uk/mobility-scooters-and-powered-wheelchairs-rules**

CUSTOMER SERVICE EXCELLENCE CSE
INVESTORS IN PEOPLE™
We invest in people Gold